**Cofnodion Cyfarfod o'r PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL a gynhaliwyd o bell drwy fideogynadledda ddydd Iau, 13 Ionawr 2022**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Ivor Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr John Adams-Lewis, Bryan Davies, Ceredig Davies, Gareth Davies, Ifan Davies, Keith Evans, Lyndon Lloyd MBE, Dai Mason, Rowland Rees-Evans, Lynford Thomas, Wyn Thomas a Matthew Woolfall Jones

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorwyr Rhodri Evans, Catherine Hughes, Gareth Lloyd a Ray Quant (Aelodau Cabinet)

**Swyddogion yn bresennol:** Mr Geraint Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Pobl a Threfniadaeth; Mr Arwyn Davies, Rheolwr Corfforaethol, Twf a Menter; Mr David Owen, Swyddog Datblygu Digidol; Mrs Dwynwen Jones, Swyddog Craffu a Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau.

1 **Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Elizabeth Evans a'r Cynghorydd Dan Potter am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

• **Datgelu Buddiannau Personol a Buddiannau sy'n Rhagfarnu**

Datgelodd y Cynghorydd Bryan Davies fuddiant personol a buddiant a oedd yn rhagfarnu o ran eitem 3, Fflyd y Cyngor a Gyrru yn y Gwaith – Defnyddio Cerbydau Preifat

3 **Fflyd y Cyngor a Gyrru yn y Gwaith - Defnyddio Cerbydau Preifat**

Ystyriwyd y ddau bolisi newydd yr oedd y Gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth wedi'u datblygu ar y cyd â'r Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol. Yn dilyn ystyriaeth gychwynnol gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 27 Hydref 2021, ailddrafftiwyd y ddau bolisi hyn i gynnwys nifer o'r newidiadau a awgrymwyd. Ymgynghorwyd gyda'r Undebau Llafur perthnasol am y polisïau hyn a chafodd eu newidiadau nhw eu cynnwys lle bo hynny'n briodol.

Diben yr holl bolisïau a gweithdrefnau staff oedd nodi'n glir yr ymddygiad, y prosesau a'r gweithdrefnau y mae'n ofynnol i'r staff gadw atynt. Hefyd, roedd y dogfennau hyn yn nodi sut y gall y staff gael cyngor neu gymorth ynghyd â'r canlyniadau o beidio cydymffurfio â'r polisi a/neu'r weithdrefn.

**Polisi Gyrru yn y Gwaith – Fflyd y Cyngor**

Cynhaliwyd adolygiad Rheoli Risg Fflyd a Gyrwyr gan ymgynghorydd ar ran Zurich, cwmni yswiriant y Cyngor. Y prif ddiben oedd adolygu polisïau a threfniadau'r Cyngor gan ystyried safonau arfer gorau a darparu argymhellion a fyddai'n cynorthwyo wrth sicrhau cydymffurfiaeth, diogelu ein gweithlu rhag niwed a lleihau risg digwyddiadau.

Un o brif argymhellion yr Adolygiad oedd cyflwyno Polisi Gyrru yn y Gwaith gyda Chytundeb Gyrrwr yn rhan ohono, sy'n cynnig "disgwyliad diamwys clir ynghylch safonau gyrru". Roedd y Polisi Gyrru yn y Gwaith – Fflyd y Cyngor yn un o gyfres o

gynlluniau sy'n ceisio safoni'r prosesau cofnodi a chydymffurfiaeth ar draws y fflyd cerbydau a sicrhau safonau gyrru sy'n gwella diogelwch y gyrwyr a'r teithwyr, gan leihau nifer y digwyddiadau a'r damweiniau sy'n gysylltiedig â'r fflyd. Roedd y cynlluniau eraill yn cynnwys cyflwyno modiwl e-ddysgu ar gyfer rhoi hyfforddiant i yrwyr a systemau archwilio cadarn ar gyfer cerbydau a thrwyddedau.

Cyflwynwyd y canlynol fel rhan o'r Polisi Gyrru yn y Gwaith – Fflyd y Cyngor:-

- Cytundeb Gyrrwr/Gweithredwr Peirianwaith i'w lofnodi bob blwyddyn;
- Y gofyniad i weithwyr hysbysu eu rheolwr o unrhyw newid i'w hiechyd neu namau corfforol/synhwyraidd ac asesiad iechyd blynyddol
- Os oes achos, sgrinio am gyffuriau ac alcohol
- Y gweithiwr yn talu cyfraniad o hyd at £250 at gostau dros-ben yswiriant yn dilyn gweithdrefn ddisgyblu, os achosir y difrod o ganlyniad i'w hesgeulustod nhw neu os byddant wedi bod yn gyrru heb ofal a sylw priodol

**Polisi Gyrru yn y Gwaith – Defnyddio Cerbyd Preifat (Fflyd Llwyd)**
Roedd y Polisi Gyrru yn y Gwaith – Defnyddio Cerbyd Preifat (Fflyd Llwyd) yn nodi'r disgwyliadau ar y gweithwyr hynny sy'n defnyddio eu cerbyd preifat at ddibenion busnes y Cyngor. Byddai modiwl e-ddysgu hefyd yn cael ei ddatblygu i gyd-fynd â'r polisi.

Cyflwynwyd y canlynol fel rhan o'r Polisi Gyrru yn y Gwaith – Defnyddio Cerbyd Preifat (Fflyd Llwyd):

- Datganiad defnyddiwr Cerbyd Preifat i'w lofnodi bob blwyddyn;
- Y gofyniad i'r gweithiwr hysbysu eu rheolwr o unrhyw newid i'w hamgylchiadau a allai effeithio ar ddefnyddio cerbyd preifat at ddibenion gwaith
- Os oes achos, sgrinio am gyffuriau ac alcohol
- Y gweithwyr yn cadarnhau bod eu cerbydau yn addas i'r ffordd fawr, bod ganddynt dystysgrif MOT (pan fo hynny'n briodol) a'u bod wedi cael ei yswirio'n gywir at ddibenion busnes.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i argymell y dylai'r Cabinet gymeradwyo'r Polisi Gyrru yn y Gwaith – Fflyd y Cyngor a'r Polisi Gyrru yn y Gwaith – Defnyddio Cerbydau Preifat (Fflyd Llwyd) yn amodol ar ystyried gwirio ar wefan y DVLA bod cerbydau preifat yn addas i'r ffordd fawr.

**4 Diweddariad am absenoldeb oherwydd salwch**
Rhoddwyd diweddariad am absenoldeb oherwydd salwch yn dilyn cais gan y Pwyllgor yn y cyfarfod diwethaf. Dywedwyd bod y polisi yn amlinellu'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli absenoldeb oherwydd salwch o fewn y Cyngor. O ran y gweithlu corfforaethol, roedd Polisi a Gweithdrefn Rheoli Absenoldeb Oherwydd Salwch yn y Gwaith wedi bod yn weithredol ers hydref 2017. Roedd y prosesau a nodwyd yn y ddogfen wedi'u gweithredu'n llawn ac roeddent bellach wedi'u hen sefydlu.

O ran gweithlu'r ysgolion, cymeradwyodd y Cabinet Bolisi a Gweithdrefn Enghreifftiol Rheoli Absenoldeb Oherwydd Salwch yn y Gwaith diwygiedig ym mis Rhagfyr 2021

ac roedd y ddogfen hon yn cael ei chynnig i Gyrff Llywodraethol y tymor hwn i'w mabwysiadu.

Roedd y gweithdrefnau fwy neu lai'r un fath ar gyfer y ddau bolisi.

Dywedwyd bod y gwaith o fonitro absenoldeb oherwydd salwch wedi'i rannu'n ddwy:

a) Absenoldeb tymor byr oherwydd salwch – cyfnod byr o absenoldeb, yn aml dim ond ychydig ddyddiau o ganlyniad i fân anhwylderau
b) Absenoldeb hirdymor oherwydd salwch – absenoldeb parhaus o fwy na 28 diwrnod

Rhoddwyd rhagor o fanylion am y polisi gan gynnwys gwybodaeth am fonitro absenoldeb tymor byr, monitro absenoldeb hirdymor oherwydd salwch, Care First, y Siarter Afiechyd Marwol, Absenoldebau oherwydd Covid-19, a rôl Swyddog Iechyd a Lles y Gweithwyr.

Rhoddwyd cyflwyniad hefyd am absenoldeb oherwydd salwch a darparwyd y wybodaeth ganlynol:-

- Nifer y staff
- Nifer y diwrnodau a gollwyd
- Nifer y diwrnodau a gollwyd cyfwerth ag amser llawn
- Meincnodi – Nifer y diwrnodau - 2018-19, 2019-20, 2020-21
- Cwmwl Geiriau – Rhesymau dros absenoldebau hirdymor
- Nifer yr atgyfeiriadau Iechyd Galwedigaethol
- Nifer y staff a roddodd orau i'w gwaith oherwydd afiechyd
- Absenoldebau oherwydd Covid-19 hyd at 07/01/2022

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

Hefyd, wrth gyflwyno data i'r Pwyllgor yn y dyfodol, dywedwyd y dylid ystyried cymharu absenoldebau oherwydd salwch yng Nghyngor Sir Ceredigion â'r sefyllfa yn y sector preifat ac yng Nghyngor Sir Powys.

5 **Cysylltedd Digidol**

Ystyriwyd yr adroddiad ynghylch Cysylltedd Digidol. Cyflwynwyd yr adroddiad i roi trosolwg i'r Aelodau o'r cynlluniau a'r prosiectau yr oedd Cyngor Sir Ceredigion yn ymgymryd â nhw i gefnogi lefelau o gysylltedd digidol ar draws y Sir.

Darparwyd y wybodaeth ganlynol ar ffurf cyflwyniad pwyntbwer:-

- Cefndir
- Sefyllfa bresennol – Band eang, ffonau symudol
- Prosiectau / Cynlluniau cyfredol – Band eang, Prosiectau Ffeibr, Prosiect Gigabit, Adolygiad o'r Farchnad Agored 2021, Ffonau Symudol, Rhwydwaith Gwledig a Rennir , Gwasanaeth Ardal Estynedig, Rhwydwaith LoRaWAN ar draws y Sir, Trefi SMART Ceredigion, Gwefan Ddigidol, Mapio Cysylltedd Digidol
- Casgliad

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i nodi'r adroddiad diweddaru ynghylch yr agenda cysylltedd digidol yng Ngheredigion a gwaith y Cyngor o ran helpu i wella cysylltedd a chynorthwyo'r Aelodau i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo cyfleoedd o fewn eu cymunedau.

6 **Blaenraglen Waith**

Cytunwyd ar y Flaenraglen Waith fel y'i cyflwynwyd yn amodol ar y canlynol:-

Cyflwyno adroddiad am Ffermydd**Dyddiad:_________Cofnodion Cyfarfod o'r PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL a gynhaliwyd o bell drwy fideogynadledda ddydd Iau, 13 Ionawr 2022**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Ivor Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr John Adams-Lewis, Bryan Davies, Ceredig Davies, Gareth Davies, Ifan Davies, Keith Evans, Lyndon Lloyd MBE, Dai Mason, Rowland Rees-Evans, Lynford Thomas, Wyn Thomas a Matthew Woolfall Jones

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorwyr Rhodri Evans, Catherine Hughes, Gareth Lloyd a Ray Quant (Aelodau Cabinet)

**Swyddogion yn bresennol:** Mr Geraint Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Pobl a Threfniadaeth; Mr Arwyn Davies, Rheolwr Corfforaethol, Twf a Menter; Mr David Owen, Swyddog Datblygu Digidol; Mrs Dwynwen Jones, Swyddog Craffu a Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau.

2 **Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Elizabeth Evans a'r Cynghorydd Dan Potter am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

- **Datgelu Buddiannau Personol a Buddiannau sy'n Rhagfarnu**

  Datgelodd y Cynghorydd Bryan Davies fuddiant personol a buddiant a oedd yn rhagfarnu o ran eitem 3, Fflyd y Cyngor a Gyrru yn y Gwaith – Defnyddio Cerbydau Preifat

4 **Fflyd y Cyngor a Gyrru yn y Gwaith - Defnyddio Cerbydau Preifat**

Ystyriwyd y ddau bolisi newydd yr oedd y Gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth wedi'u datblygu ar y cyd â'r Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol. Yn dilyn ystyriaeth gychwynnol gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 27 Hydref 2021, ailddrafftiwyd y ddau bolisi hyn i gynnwys nifer o'r newidiadau a awgrymwyd. Ymgynghorwyd gyda'r Undebau Llafur perthnasol am y polisïau hyn a chafodd eu newidiadau nhw eu cynnwys lle bo hynny'n briodol.

Diben yr holl bolisïau a gweithdrefnau staff oedd nodi'n glir yr ymddygiad, y prosesau a'r gweithdrefnau y mae'n ofynnol i'r staff gadw atynt. Hefyd, roedd y dogfennau hyn yn nodi sut y gall y staff gael cyngor neu gymorth ynghyd â'r canlyniadau o beidio cydymffurfio â'r polisi a/neu'r weithdrefn.

**Polisi Gyrru yn y Gwaith – Fflyd y Cyngor**
Cynhaliwyd adolygiad Rheoli Risg Fflyd a Gyrwyr gan ymgynghorydd ar ran Zurich, cwmni yswiriant y Cyngor. Y prif ddiben oedd adolygu polisïau a threfniadau'r Cyngor gan ystyried safonau arfer gorau a darparu argymhellion a fyddai'n cynorthwyo wrth sicrhau cydymffurfiaeth, diogelu ein gweithlu rhag niwed a lleihau risg digwyddiadau.

Un o brif argymhellion yr Adolygiad oedd cyflwyno Polisi Gyrru yn y Gwaith gyda Chytundeb Gyrrwr yn rhan ohono, sy'n cynnig "disgwyliad diamwys clir ynghylch safonau gyrru". Roedd y Polisi Gyrru yn y Gwaith – Fflyd y Cyngor yn un o gyfres o gynlluniau sy'n ceisio safoni'r prosesau cofnodi a chydymffurfiaeth ar draws y fflyd cerbydau a sicrhau safonau gyrru sy'n gwella diogelwch y gyrwyr a'r teithwyr, gan leihau nifer y digwyddiadau a'r damweiniau sy'n gysylltiedig â'r fflyd. Roedd y cynlluniau eraill yn cynnwys cyflwyno modiwl e-ddysgu ar gyfer rhoi hyfforddiant i yrwyr a systemau archwilio cadarn ar gyfer cerbydau a thrwyddedau.

Cyflwynwyd y canlynol fel rhan o'r Polisi Gyrru yn y Gwaith – Fflyd y Cyngor:-

- Cytundeb Gyrrwr/Gweithredwr Peirianwaith i'w lofnodi bob blwyddyn;
- Y gofyniad i weithwyr hysbysu eu rheolwr o unrhyw newid i'w hiechyd neu namau corfforol/synhwyraidd ac asesiad iechyd blynyddol
- Os oes achos, sgrinio am gyffuriau ac alcohol
- Y gweithiwr yn talu cyfraniad o hyd at £250 at gostau dros-ben yswiriant yn dilyn gweithdrefn ddisgyblu, os achosir y difrod o ganlyniad i'w hesgeulustod nhw neu os byddant wedi bod yn gyrru heb ofal a sylw priodol

**Polisi Gyrru yn y Gwaith – Defnyddio Cerbyd Preifat (Fflyd Llwyd)**
Roedd y Polisi Gyrru yn y Gwaith – Defnyddio Cerbyd Preifat (Fflyd Llwyd) yn nodi'r disgwyliadau ar y gweithwyr hynny sy'n defnyddio eu cerbyd preifat at ddibenion busnes y Cyngor. Byddai modiwl e-ddysgu hefyd yn cael ei ddatblygu i gyd-fynd â'r polisi.

Cyflwynwyd y canlynol fel rhan o'r Polisi Gyrru yn y Gwaith – Defnyddio Cerbyd Preifat (Fflyd Llwyd):

- Datganiad defnyddiwr Cerbyd Preifat i'w lofnodi bob blwyddyn;
- Y gofyniad i'r gweithiwr hysbysu eu rheolwr o unrhyw newid i'w hamgylchiadau a allai effeithio ar ddefnyddio cerbyd preifat at ddibenion gwaith
- Os oes achos, sgrinio am gyffuriau ac alcohol
- Y gweithwyr yn cadarnhau bod eu cerbydau yn addas i'r ffordd fawr, bod ganddynt dystysgrif MOT (pan fo hynny'n briodol) a'u bod wedi cael ei yswirio'n gywir at ddibenion busnes.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i argymell y dylai'r Cabinet gymeradwyo'r Polisi Gyrru yn y Gwaith – Fflyd y Cyngor a'r Polisi

Gyrru yn y Gwaith – Defnyddio Cerbydau Preifat (Fflyd Llwyd) yn amodol ar ystyried gwirio ar wefan y DVLA bod cerbydau preifat yn addas i'r ffordd fawr.

**5 Diweddariad am absenoldeb oherwydd salwch**

Rhoddwyd diweddariad am absenoldeb oherwydd salwch yn dilyn cais gan y Pwyllgor yn y cyfarfod diwethaf. Dywedwyd bod y polisi yn amlinellu'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli absenoldeb oherwydd salwch o fewn y Cyngor. O ran y gweithlu corfforaethol, roedd Polisi a Gweithdrefn Rheoli Absenoldeb Oherwydd Salwch yn y Gwaith wedi bod yn weithredol ers hydref 2017. Roedd y prosesau a nodwyd yn y ddogfen wedi'u gweithredu'n llawn ac roeddent bellach wedi'u hen sefydlu.

O ran gweithlu'r ysgolion, cymeradwyodd y Cabinet Bolisi a Gweithdrefn Enghreifftiol Rheoli Absenoldeb Oherwydd Salwch yn y Gwaith diwygiedig ym mis Rhagfyr 2021 ac roedd y ddogfen hon yn cael ei chynnig i Gyrff Llywodraethol y tymor hwn i'w mabwysiadu.

Roedd y gweithdrefnau fwy neu lai'r un fath ar gyfer y ddau bolisi.

Dywedwyd bod y gwaith o fonitro absenoldeb oherwydd salwch wedi'i rannu'n ddwy:

a) Absenoldeb tymor byr oherwydd salwch – cyfnod byr o absenoldeb, yn aml dim ond ychydig ddyddiau o ganlyniad i fân anhwylderau
b) Absenoldeb hirdymor oherwydd salwch – absenoldeb parhaus o fwy na 28 diwrnod

Rhoddwyd rhagor o fanylion am y polisi gan gynnwys gwybodaeth am fonitro absenoldeb tymor byr, monitro absenoldeb hirdymor oherwydd salwch, Care First, y Siarter Afiechyd Marwol, Absenoldebau oherwydd Covid-19, a rôl Swyddog Iechyd a Lles y Gweithwyr.

Rhoddwyd cyflwyniad hefyd am absenoldeb oherwydd salwch a darparwyd y wybodaeth ganlynol:-

- Nifer y staff
- Nifer y diwrnodau a gollwyd
- Nifer y diwrnodau a gollwyd cyfwerth ag amser llawn
- Meincnodi – Nifer y diwrnodau - 2018-19, 2019-20, 2020-21
- Cwmwl Geiriau – Rhesymau dros absenoldebau hirdymor
- Nifer yr atgyfeiriadau Iechyd Galwedigaethol
- Nifer y staff a roddodd orau i'w gwaith oherwydd afiechyd
- Absenoldebau oherwydd Covid-19 hyd at 07/01/2022

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

Hefyd, wrth gyflwyno data i'r Pwyllgor yn y dyfodol, dywedwyd y dylid ystyried cymharu absenoldebau oherwydd salwch yng Nghyngor Sir Ceredigion â'r sefyllfa yn y sector preifat ac yng Nghyngor Sir Powys.

**6** **Cysylltedd Digidol**

Ystyriwyd yr adroddiad ynghylch Cysylltedd Digidol. Cyflwynwyd yr adroddiad i roi trosolwg i'r Aelodau o'r cynlluniau a'r prosiectau yr oedd Cyngor Sir Ceredigion yn ymgymryd â nhw i gefnogi lefelau o gysylltedd digidol ar draws y Sir.

Darparwyd y wybodaeth ganlynol ar ffurf cyflwyniad pwyntbwer:-

- Cefndir
- Sefyllfa bresennol – Band eang, ffonau symudol
- Prosiectau / Cynlluniau cyfredol – Band eang, Prosiectau Ffeibr, Prosiect Gigabit, Adolygiad o'r Farchnad Agored 2021, Ffonau Symudol, Rhwydwaith Gwledig a Rennir , Gwasanaeth Ardal Estynedig, Rhwydwaith LoRaWAN ar draws y Sir, Trefi SMART Ceredigion, Gwefan Ddigidol, Mapio Cysylltedd Digidol
- Casgliad

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i nodi'r adroddiad diweddaru ynghylch yr agenda cysylltedd digidol yng Ngheredigion a gwaith y Cyngor o ran helpu i wella cysylltedd a chynorthwyo'r Aelodau i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo cyfleoedd o fewn eu cymunedau.

**7** **Blaenraglen Waith**

Cytunwyd ar y Flaenraglen Waith fel y'i cyflwynwyd yn amodol ar y canlynol:-

- Cyflwyno adroddiad am Ffermydd y Sir ynghyd ag argymhellion ynghylch y ffordd ymlaen yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 17 Mawrth 2022
- Gwahodd y Swyddog Digidol newydd i un o gyfarfodydd y dyfodol
- Cyflwyno adroddiad ynglŷn â grantiau Trefi Smart a chyllid arall sydd ar gael i adfywio trefi yn un o gyfarfodydd y dyfodol ar ôl yr etholiadau.

**7** **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion hynny.**

CYTUNWYD i gadarnhau cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2021 a 27 Hydref 2021 yn amodol ar nodi bod y Cynghorydd Endaf Edwards wedi ymddiheuro na fedrai fod yn bresennol yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Hydref 2021.

**Materion yn codi**

Gofynnodd y Cynghorydd Lyndon Lloyd MBE a fyddai modd cynnwys rhif ffôn CLIC ar ddogfennau ymgynghori a dogfennau cyhoeddus gan nad oedd pawb yn medru ymateb i ymgynghoriadau ar-lein. Byddai'r cais hwn yn cael ei anfon ymlaen at y swyddogion perthnasol.

**Cadarnhawyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2022**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:__________________**

- ______